



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Yr Holl Seintiau
School Hill
Gresffordd
LL12 8RW**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Yr Holl Seintiau

Mae Ysgol Gynradd Yr Holl Seintiau yn ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru yng Ngresfordd yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 283 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 33 yn y dosbarthiadau meithrin.

Y cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 6%. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 11% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Saesneg yw prif iaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o'r disgyblion. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, neu maent yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu mamiaith gartref.

Penodwyd y pennaeth ym mis Tachwedd 2019. Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd safonau uchel yn eu medrau ysgrifennu, mathemateg a llafaredd Cymraeg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac yn dangos safon uchel o ofal ac ystyriaeth am bobl eraill. Mae staff yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol, cymdeithasol a moesol disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r ffordd y caiff gwerthoedd craidd ar y cyd eu hyrwyddo yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol lle mae pob un o'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae tîm cefnogol o staff yn dangos ymrwymiad cryf i'r ysgol a'i disgyblion. Mae staff yn ymgymryd â mentrau newydd yn dda, ac yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddatblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu sy'n ffynnu.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at beth maent yn ei ddysgu, a sut
- A2 Gwella'r ffordd y mae disgyblion yn cymhwyso medrau rhifedd ar draws yr holl feysydd dysgu
- A3 Sicrhau cysondeb yn nisgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da, o leiaf, wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd i safon uchel ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrandao'n ofalus ar oedolion, ac ar ei gilydd. Maent yn siaradwyr hyderus sy'n defnyddio ystod eang o eirfa. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn trafod yn hyderus pa anifeiliaid sy'n byw yn yr Arctig a sut mae rhew yn teimlo. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn siarad yn huawdl wrth gyflwyno eu storïau am ungyrn i ddisgyblion eraill. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod datgoedwigo a'i effaith ar yr amgylchedd yn aeddfed.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o seiniau llythrennau yn gyflym, a'r modd y mae'r rhain yn cyfuno i ffurfio geiriau. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r cyfnod sylfaen, gall y rhan fwyaf ohonynt ddarllen â mynegiant, a dangosant lefelau da o ddealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei ddarllen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen er pleser ac yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu dysgu. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i ddod o hyd i wybodaeth, ac yn defnyddio geiriadur yn gywir. Maent yn mwynhau dysgu, ac yn defnyddio geirfa effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu am 'The Selfish Giant'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol, ac yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymfalchio yn ymddangosiad eu gwaith. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad yn gyson uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau sylfaenol cryf mewn atalnodi a sillafu. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn deall nodweddion amrywiaeth eang o ffurfiau ac yn eu defnyddio'n ystyriol yn eu gwaith eu hunain, er enghraifft wrth lunio cerddi cyffrous am dân gwyllt ym Mlynnyddoedd 1 a 2. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau geirfa soffistigedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn defnyddio trosiadau a chyffelybiaethau yn effeithiol wrth ysgrifennu am y modd y mae crwbau y môr yn dianc o fod yn sownd mewn plastig. Mae eu defnydd o iaith gynryfiadol yn disgrifio'r sefyllfa ac yn ennyn diddordeb y darlennydd yn dda.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, ac wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf o ran gwella eu medrau Cymraeg. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddilyn gorchmynion cyfarwydd yn Gymraeg, ac maent yn ymateb yn frwdfrydig. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio cyfarchion cyfarwydd, ac maent yn gynyddol hyderus wrth ddewis geirfa allweddol mewn brawddegau syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am ystod eang o batrymau brawddeg a geirfa. Erbyn Blwyddyn 6, gall y rhan fwyaf ohonynt fynegi eu barn ac ymestyn eu hatebion yn dda, gan ddefnyddio gwahanol gysyllteiriau. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus yn Gymraeg am destunau cyfarwydd, er enghraifft pan fyddant yn llunio proffiliau manwl am Gymry sy'n enwog ym maes chwaraeon a cherddorion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau mathemategol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar wybodaeth gadarn am ffeithiau rhif sylfaenol, ac maent yn cymhwyso'r rhain yn dda. Maent yn datrys problemau syml yn gysylltiedig ag amser ac arian, ac yn deall gwerth lle. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn prisio'r cynhwysion a'r offer sydd eu hangen i wneud dynion eira malws melys yn fedrus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n ddestlus, yn drefnus ac yn gywir yn eu gwaith mewn mathemateg. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n briodol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae disgyblion yn cymharu tymereddau yn Tasmania a Wrecsam yn hyderus, ac ym Mlwyddyn 4, maent yn cymharu dimensiynau cymharol cramen, mentyll a chraidd y ddaear yn gywir. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion bob amser yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm ehangach.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i gymharu maint a hyd gwrthrychau yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 1 a 2 yn ymdrin ag offer sgrin yn llwyddiannus i dynnu lluniau o'r Dylluan Fach Wen (Little White Owl). Maent yn newid maint a lliw eu ffont yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ffeil ffeithiau cyfrifiadur yn briodol i gefnogi eu gwaith testun ar drychinebau glofaol lleol. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwilio ar y rhyngwyd i gasglu gwybodaeth yn gyflym a'i chyflwyno ar ffurf sioeau sleidiau a dogfennau wedi'u geirbrosesu yn glir. Ym Mlwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall diben cronfeydd data, er enghraifft wrth edrych ar ffigurau o oes y Tuduriaid.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod ble i gael cymorth a chefnogaeth os byddant yn teimlo eu bod yn poeni neu'n ddigalon. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'r angen i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r rhyngwyd ac yn gwybod beth ddylent ei wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus am yr angen i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel rhag pobl nad ydynt yn eu hadnabod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer ohonynt yn elwa ar yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol sy'n hyrwyddo bwyta'n iach a lles corfforol, gan gynnwys, 'y clwb bwyd iach' ('healthy grub club'), pêl-droed, hyfforddiant ffitrwydd a chymorth cyntaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn unigolion hyderus sy'n mwynhau trefnu a pherfformio mewn digwyddiadau, er enghraifft pan fyddant yn perfformio mewn gwasanaeth Coffa.

Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn cymryd rôl allweddol mewn digwyddiadau cymunedol, ac maent yn chwilfrydig i ddarganfod mwy am hanes eu hardal. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn dangos empathi a thosturi wrth ddysgu am drychineb Pwll Glo Gresffordd. Mae disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol, y Criw Cymraeg a'r eco-bwyllgor a sefydlwyd yn ddiweddar, yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn trefnu digwyddiadau rheolaidd i godi arian ar gyfer elusennau, fel bore coffi ar gyfer elusen ganser.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad eithriadol o dda ar y maes chwarae ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos gofal ac ystyriaeth am ei gilydd ac yn gwrtais a chroesawgar â phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn barchus ac mae ganddynt foesau da. O ganlyniad, ceir awyrgylch dysgu digynnwrf o fewn yr ysgol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu, a dangosant ddiddordeb brwd yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn siarad yn fywiog am eu testun, sef 'The Little White Owl' ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn siarad yn wybodus am ymchwilio i dymereddau fel rhan o'u testun ar newid hinsawdd. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o'r argyfwng hinsawdd ac maent yn eiriolwyr brwd dros achub y blaned trwy ffyrdd o fyw cynaliadwy.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod i drafod eu gwaith â'u cyfoedion, yn parchu cyfraniadau disgyblion eraill, ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau hunangymorth, fel 'The Five Bees' (brain, board, buddy, book, boss) yn effeithiol i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol.

Mae cyfraddau presenoldeb ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn dangos tuedd o welliant, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ddatlu presenoldeb rheolaidd yr ysgol bob tymor. Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n eu difyrru'n dda, ac yn symbylu eu diddordeb, er enghraifft, wrth adeiladu iglŵau bach o giwbiau siwgr i bengwin fyw ynddynt. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio eu hystafelloedd dosbarth yn ofalus i greu lleoedd sy'n ffafriol i ddysgu. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn bwrpasol i gynorthwyo unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at godi safonau llythrennedd a rhifedd a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae gan bob aelod o staff berthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn garedig ac ystyriol atynt, ac yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau, mae ganddynt ddisgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.

Ceir system glir o heriau dysgu wedi'u graddio ar gyfer gweithgareddau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn rhoi dewis priodol o dasgau i ddisgyblion ar wahanol lefelau anhawster. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio cyfleoedd digon heriol i ddisgyblion weithio'n annibynnol, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl. Er enghraifft, collir cyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu eu dysgu mathemategol blaenorol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn rhannu amcanion gwersi gyda disgyblion yn bwrpasol ac yn darparu ffyrdd defnyddiol ar eu cyfer i sicrhau eu bod yn llwyddiannus yn eu dysgu. Mae'r defnydd o restrau gwirio, a hunanasesiadau ac asesiadau cyfoedion yn helpu disgyblion hŷn i ddatblygu i fod yn ddysgwyr myfyriol a chael dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella. Mae hyn yn arwain at welliannau y gellir eu nodi ym medrau disgyblion, yn enwedig yn eu gwaith ysgrifennu a'u gwaith llafaredd Cymraeg. Mae bron pob un o'r staff yn holi disgyblion yn fedrus i wirio eu dealltwriaeth a helpu llywio'r camau nesaf yn eu haddysgu.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i addysgeg y cyfnod sylfaen. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, mathemategol a chreadigol disgyblion trwy weithgareddau ymarferol diddorol, dan do a'r tu allan, fel ei gilydd. Mae hyn yn cefnogi lles disgyblion a'u hymgysylltiad â dysgu yn effeithiol iawn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn weithredol ac ymholgar ac yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn dda, er enghraifft pan fyddant yn ceisio adeiladu a phrofi adeiladau sy'n gallu gwrthsefyll daeargrynfeydd gan ddefnyddio jeli i ail-greu'r sylfeini gwan.

Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gyda disgyblion ac yn eu hannog i ymateb. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant yr ardal leol. Mae disgyblion iau yn mwynhau creu modelau o Eglwys Yr Holl Seintiau a Chastell Y Waun. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu am hanes Cymru a'i diwylliant wrth astudio awduron o Gymru, gan ddarllen am fythau a chwedlau o Gymru, a gwrando ar gerddoriaeth gan y delynores o Gymru, Catrin Finch.

Mae athrawon yn defnyddio'r ardal ac ymweliadau i gyfoethogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae cydlynnydd cerddoriaeth yn cefnogi gwerthfawrogiad a mwynhad disgyblion o gerddoriaeth trwy ymweliadau rheolaidd. Mae athrawon yn nodi cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau TGCh trwy eu gwaith testun. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio apiau cyfrifiadur i fewnforio ffotograffau o ymweliadau, ac ysgrifennu adroddiadau newyddion. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio TGCh yn briodol ac yn fedrus i dynnu llun siartiau bar yn dangos newidiadau demograffig yn Awstralia fel rhan o'u gwaith daearyddiaeth.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cadarnhaol lle mae disgyblion a staff yn dangos agweddau gofalgarg tuag at ei gilydd, a lle mae pawb yn ymfalchïo yn yr ysgol. Mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau iechyd a lles y disgyblion. Mae athrawon yn dechrau dirnad barn disgyblion ac yn eu cynnwys yn fwy mewn cynllunio'r hyn yr hoffent ei ddysgu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Gall disgyblion gael dŵr yfed a byrbrydau iach yn hawdd, a rhoddir cyfleoedd mynych iddynt wneud ymarfer corff yn ystod amseroedd egwyl ac yn ystod eu hawr ginio. Mae holl reolau'r ysgol a'r dosbarth yn glir ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r disgwyliadau uchel yn gysylltiedig â'u hymddygiad. Caiff hyn ddylanwad cryf ar ddatblygiad moesol disgyblion, ac mae'n eu helpu i wahaniaethu'n aeddfed rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

Ceir gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n galluogi staff i fesur cynnydd disgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae staff, disgyblion a rhieni yn cyfrannu at baratoi proffil un dudalen defnyddiol sy'n crynhoi cryfderau, pryderon a ffafriaethau disgybl yn glŷn â sut mae'n dysgu orau. Mae athrawon yn cynnal ystod addas o asesiadau ac yn goruchwyllo cynnydd disgyblion yn effeithlon trwy system olrhain electronig deilwredig. Mae'r gweithdrefnau hyn yn galluogi staff i nodi unrhyw ddisgyblion y mae eu cynnydd yn arafach na'r disgwyl, a darparu cymorth prydlon, targedig o ganlyniad.

Mae arweinwyr yn olrhain a monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr, ac yn gweithio'n agos gyda swyddog presenoldeb yr ysgol i weithio gyda theuluoedd disgyblion â phresenoldeb isel. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd asiantaethau allanol fel bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth arbenigol priodol. Mae gan ddisgyblion targedig gynlluniau addysg unigol addas sy'n amlinellu targedau clir a mesuradwy. Mae staff, disgyblion a rhieni yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion targedig yn gwneud cynnydd da tuag at eu nodau dysgu unigol.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgysylltu mewn ffordd bwrpasol â'u cymuned leol. Mae disgyblion yn canu gyda phreswylwyr cartref gofal lleol ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r eglwys leol. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol disgyblion. Mae grwpiau arwain disgyblion, fel y cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor, yn dechrau cyfrannu'n bwrpasol at fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn trefnu bore coffi i gynorthwyo elusen ganser, ac yn gweithio fel gweinyddion yno. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i gefnogi digwyddiadau cymunedol, fel coffáu trychineb Pwll Glo Gresffordd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'n rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion greu cerddoriaeth a pherfformio yn yr ysgol ac mewn digwyddiadau fel cyngerdd y Manchester Young Voices. Mae staff yn codi synnwyr disgyblion o barchedig ofn a rhyfeddod yn dda trwy eu hymdriniaeth â materion amgylcheddol. Mae disgyblion yn siarad â balchder am y ffaith eu bod yn noddi diogyn (sloth) o sŵ cyfagos.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â rhieni, y mae llawer ohonynt yn gwirfoddoli i fynd ar ymweliadau ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant, ac yn gwerthfawrogi natur bersonol adroddiadau ar ddiwedd blwyddyn. Mae'r gymdeithas cartref-ysgol weithgar yn cefnogi'r ysgol yn dda trwy drefnu gweithgareddau codi arian poblogaidd, er enghraifft i helpu disodli hen offer cyfrifiadurol.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth, a benodwyd yn ddiweddar, yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cefnogol sy'n hyrwyddo hapusrwydd, lles a chyflawniad disgyblion a staff yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel priodol o ran gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol staff. Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth gydbwysedd da o fedrau ac arbenigedd ac maent yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda.

Mae'r pennaeth yn adnabod ac yn meithrin cryfderau unigol staff yn fedrus. Caiff rolau arwain eu dosbarthu'n ofalus ar bob lefel ar sail arbenigedd a diddordebau staff. Mae hyn yn helpu datblygu'r ysgol yn sefydliad dysgu pwrpasol. Er enghraifft, mae'r dirprwy bennaeth yn gweithio ar adnoddau i gefnogi addysgu rhifedd ar draws pob maes dysgu yn fwy effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhannu arfer dda ac yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i athrawon rannu eu profiadau gyda

gweithwyr proffesiynol eraill. Mae wedi datblygu capasiti'r ysgol ar gyfer gwelliant parhaus yn dda ac wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion, er enghraifft safonau gwell ym medrau'r disgyblion wrth ysgrifennu'n annibynnol.

Mae gan bob aelod o staff swydd-ddisgrifiadau penodol a chdir. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn teimlo bod uwch arweinwyr yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau at yr ysgol. Mae'r ysgol yn cefnogi dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus. Mae staff cymorth yn rhan annatod o dîm yr ysgol, ac yn mynychu cyfarfodydd staff ochr yn ochr ag athrawon. Mae staff yn rhannu arfer dda yn yr ysgol yn rheolaidd, ac mae hyn yn gwella eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda, ac yn cyflawni ei rôl gefnogol yn effeithiol. Mae gan lywodraethwyr arbenigedd proffesiynol gwerthfawr ac ystod addas o ddiddordebau, y maent yn eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi'r ysgol, er enghraifft trwy weithredu fel mentoriaid darllen i ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn dda am ddatblygiadau a chynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth dda am ddata ar berfformiad yr ysgol a'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn herio'r tîm arweinyddiaeth yn effeithiol fel ffrindiau beirniadol, ac yn dwyn yr ysgol yn briodol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ddiwyd ac yn monitro effaith gwariant yn effeithiol. Maent yn ymateb yn briodol i heriau ariannol ac yn cynllunio i liniaru unrhyw risgiau posibl yn y dyfodol yn gyflym. Mae'r pennaeth yn cadw golwg fanwl ar gostau rhaglenni a gweithgareddau presennol, ac yn ystyried p'un a ydynt yn gost-effeithiol. Mae'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion sy'n agored i niwed neu sydd ag anghenion addysgol arbennig yn effeithiol. Gwna ddefnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn unigol.

Ceir ystod eang o brosesau i werthuso gwaith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data perthnasol, craffu ar waith disgyblion, adolygiadau cynnydd disgyblion bob hanner tymor ac arsylwadau gwersi ffurfiol. At ei gilydd, mae monitro gwaith yn rhoi trosolwg defnyddiol i arweinwyr ac athrawon o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi cyflwyno proses fonitro fwy trylwyr, sy'n canolbwyntio'n fwy cadarn ar feysydd allweddol i'w gwella.

Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2020